CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

**22 Chwefror/February, 2018**

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar **ddydd Mercher, 28 Chwefror, 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 11.00 yb** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Dr Gwynne Jones*
**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Wednesday, 28 February, 2018** to be held at the **Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 11.00 a.m.,** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Dr Gwynne Jones*
**SECRETARY**

---

**Ysgrifennydd/Secretary :** Dr. Gwynne Jones **Trysorydd/Treasurer :** Mr. Marc Jones

**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 24 Ionawr, 2018.

3 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A (Categori 16) y Ddeddf."**

4 **CAIS AM GRANT - GEMAU'R YNYSOEDD** (Tudalennau 9 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | T Ll Hughes MBE (Cadeirydd)<br>Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, G O Jones, R.Meirion Jones, Eric Wyn Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Lewis Davies, R Dew, Glyn Haynes, A M Jones, Shaun James Redmond, J A Roberts, Alun Roberts ac Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb fel a ganlyn: -

Datganodd Mr Richard Griffiths ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 7 - Grant Caru Amlwch a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a’r bleidlais arni.

Datganodd Mr Richard O Jones ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 7 – Grant Caru Amlwch a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a’r bleidlais arni.

Datganodd Mr Richard O Jones ddiddordeb personol mewn perthynas ar eitem ychwanegol – Gemau’r Ynysoedd. Cymerodd ran yn y drafodaeth a’r bleidlais ar y mater.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2017.

**3 CYMORTH POSIB I BRESWYLWYR A BUSNESAU A DDIODDEFODD GOLLEDION YN SGIL LLIFOGYDD**

Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Ysgrifennydd yn dilyn cais a wnaed mewn cyfarfod llawn o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2017 ynghylch a yw'n briodol i'r Ymddiriedolaeth sefydlu cronfa i roi cymorth i drigolion yr Ynys a gafodd lifogydd i'w cartrefi

a’u busnesau yn ddiweddar.

Mae Atodlen B o Weithred yr Ymddiriedolaeth yn nodi mai Dibenion Elusennol yr Ymddiriedolaeth yw budd cyhoeddus cyffredinol pobl sy'n byw yn y Fwrdeistref, hynny mewn modd elusennol. ‘Roedd y 'Meini Prawf ar gyfer Dyrannu Grantiau o Gronfa Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn' ynghlwm wrth yr adroddiad fel Atodiad 1.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai'n bosib dyrannu arian ond y byddai’n anodd, ac o bosib yn drafferthus ac yn feichus o safbwynt gweinyddol i ddyfeisio system ar gyfer cyflwyno ceisiadau, eu hasesu a dyfarnu grantiau elusennol mewn modd cyfreithlon er mwyn cynorthwyo i liniaru tlodi neu i atal amddifadedd a achosir gan lifogydd.

**PENDERFYNWYD bod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn derbyn na fyddai'r Dibenion Elusennol a nodir yng Ngweithred yr Ymddiriedolaeth yn cael eu defnyddio i roi cymorth ariannol i drigolion neu fusnesau’r Ynys sydd wedi dioddef llifogydd.**

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/17

Cyflwynwyd - Adroddiad Blynyddol drafft 2016/17 gan y Trysorydd i'w fabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Dywedodd y Trysorydd y dyrannwyd grantiau i 64 o sefydliadau gan ddefnyddio'r meini prawf a sefydlwyd a bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn ffynhonnell gyllido bwysig ar gyfer elusennau lleol, sefydliadau chwaraeon a gwirfoddol. Parhaodd yr Ymddiriedolaeth hefyd i ariannu Oriel Ynys Môn ac ‘roedd yr adroddiad yn nodi’r gweithgareddau a gynhaliwyd yn yr Oriel.

Mae perfformiad buddsoddi portffolio'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi cynhyrchu incwm buddsoddi o £610,710, sef £190,711 yn uwch na’r targed o £420,000. ‘Roedd y gronfa yn werth £21.581m ar 31 Mawrth, 2017. Roedd rhestr o'r grantiau a ddyfarnwyd o fewn y categorïau blynyddol arferol a rhestr o’r grantiau mwy wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd Mr R Meirion Jones at fuddsoddiadau portffolio’r Ymddiriedolaeth yn cael eu buddsoddi dramor; gofynnodd a roddir ystyriaeth i gefndir moesegol y cwmnïau hyn. Ymatebodd y Trysorydd bod Rheolwyr Buddsoddi HSBC wedi cael canllawiau ynghylch y cwmnïau y mae'r Ymddiriedolaeth yn barod i fuddsoddi ynddynt. Dywedodd ymhellach fod y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017 wedi cael dogfennau gan Reolwyr Buddsoddi HSBC o ran y canllawiau a'r cwmnïau y mae'r Ymddiriedolaeth Elusennol hon yn barod i fuddsoddi ynddynt.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon ar gyfer 2016/17 ac awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo'r fersiwn derfynol.**

## 5 CYLLIDEB 2018/19

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Trysorydd mai adroddiad yw hwn i gadarnhau'r dyraniadau cyllidol ar gyfer 2018/19. ‘Roedd portffolio’r Ymddiriedolaeth Elusennol yn werth £22,909,352 ar 30 Tachwedd, 2017. Yr amcanestyniad diweddaraf ar gyfer incwm buddsoddi yn ystod 2018/19 yw £680,000. Mae'r Ffi Reoli yn seiliedig ar gyfradd sefydlog o 0.4% o werth y portffolio ac yn 2018/19 amcangyfrifir y bydd yn £94,000. Roedd diffyg o £82,854 yn y cronfeydd wrth gefn a ddygwyd ymlaen o 2016/17 y gellir ei weld yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn Adroddiad Blynyddol 2016/17.

Y gyllideb a argymhellir ar gyfer grantiau yn 2018/19 yw: -

| | |
|---|---|
| Oriel Ynys Môn | £215k |
| Neuaddau Pentref | £80k |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Mân Grantiau | £125k |

**Grantiau Mwy - Ymrwymiadau Hirdymor: -**

| | |
|---|---|
| Ffermwyr Ifanc Ynys Môn | £30k |
| Urdd Gobaith Cymru | £40k |
| Cymdeithas Gemau Ynysoedd Ynys Môn | £40k |

Bwriedir cadw'r gyllideb ar gyfer y Neuaddau Pentref yn £80k fel y dyfarnwyd yn 2017/18. Fodd bynnag, mae'r arian a ddyfarnwyd ar gyfer neuaddau pentref wedi bod yn is na £80k (£67k yn 2015/16, £64k yn 2016/17 a £64k hyd at Chwarter 3 yn 2017/18). Mae lle i ostwng y gyllideb hon i adlewyrchu'r tueddiadau diweddar.

Bwriedir cadw'r gyllideb ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Mân Grantiau ar £125k fel y dyfarnwyd yn 2017/18. Fodd bynnag, mae'r dyfarniadau grant diweddar ar gyfer y Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Mân-Grantiau wedi bod yn is na £125k (£103k yn 2015/16, £86k yn 2016/17 a £59k yn 2017/18). Mae yna sgôp hefyd i leihau'r gyllideb hon i adlewyrchu hynny.

Dywedodd y Trysorydd ymhellach y bydd y cynnig cyllidebol hwn yn arwain at ddwyn ymlaen diffyg o £103k i 2018/19. Fodd bynnag, ni fydd diffyg mwyach pan ddaw'r Ymrwymiadau Hirdymor o £110k sy'n weddill i ben yn 2018/19.

Penderfynodd y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2017 y byddai £350k yn cael ei neilltuo tuag at grantiau mwy yn 2018/19.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Mabwysiadu cyllideb ar gyfer 2018/19 fel a ganlyn: -**

| | |
|---|---|
| **Oriel Ynys Môn** | **£215k** |
| **Neuaddau Pentref** | **£80k** |
| **Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Mân Grantiau** | **£125k** |
| **Grantiau Mwy o'r Gronfa Gyfalaf** | **£350k** |
| **Ymrwymiadau Tymor Hir Parhaus** | **£110k** |

- **Dirprwyo £125k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i ddelio â cheisiadau am Gyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Mân Grantiau.**

## 6 MENTER MÔN - PROSIECT 'LEADER'

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â phrosiect 'Leader' Menter Môn sydd wedi'i ddylunio i gynorthwyo gydag ailstrwythuro economaidd yn Ynys Môn. Ym mis Ebrill 2014, rhoddodd Rheolwr-Gyfarwyddwr blaenorol Menter Môn gyflwyniad i'r Ymddiriedolaeth ar y prosiect 'Leader'. Dyluniwyd y prosiect 'Leader' i redeg am gyfnod o 6 blynedd a gofynnodd y Rheolwr-Gyfarwyddwr ar y pryd am gyllid gan yr Ymddiriedolaeth fel arian cyfatebol er mwyn sicrhau y gellir cael arian grant o Ewrop. Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth y cais mewn egwyddor.

Dywedodd y Trysorydd bod Rheolwr-Gyfarwyddwr blaenorol Menter Môn wedi rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor Adfywio yn ei gyfarfod ar 22 Mai 2015 a bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r cais a bod yr Ymddiriedolaeth lawn wedi cadarnhau'r penderfyniad hwnnw yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf,

2015.  Dyfarnodd yr Ymddiriedolaeth swm o £330k a oedd yn daladwy dros gyfnod o 3 blynedd (2015 - 2017) fel arian cyfatebol er mwyn sicrhau'r grant o £1.65m.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr Dafydd Gruffydd, Rheolwr-Gyfarwyddwr Menter Môn a chafwyd cyflwyniad byr ganddo ar y Prosiect 'Leader'.

Dywedwyd bod y prosiect yn un 6 blynedd a fydd rhedeg hyd at Ragfyr 2021.  Cyfanswm cost y prosiect yw £3.3m, a bydd £2.78m yn cael ei ariannu gan arian grant Ewropeaidd a hefyd gan Lywodraeth Cymru.  Mae'r balans o £0.52m yn arian cyfatebol y mae'n rhaid i Menter Môn ei sicrhau.  Mae'r £330k cychwynnol a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn rhan o'r arian cyfatebol, gan adael balans o £191,438 y mae'n rhaid i Menter Môn ei sicrhau.

Rhoddodd aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol sylw i'r cais a chodwyd y canlynol: -

- Gofynnwyd a yw logo'r Ymddiriedolaeth Elusennol i'w weld ar fwrdd gwybodaeth a hysbysebu'r prosiect y mae'r Ymddiriedolaeth wedi ei ariannu. Ymatebodd y Trysorydd nad oes gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn logo penodol ac efallai y bydd y Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE), unwaith y bydd wedi ei sefydlu, yn dymuno ystyried cael logo.
- Holwyd am yr effaith ar gyllideb yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2018/19 pe cymeradwyir y cais gan Menter Môn am arian i gefnogi cais am gyllid cyfatebol ar gyfer y prosiect 'Leader'. Ymatebodd y Trysorydd y byddai angen cynnwys £64k ychwanegol yn y gyllideb am gyfnod o 3 blynedd.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cefnogi'r cais prosiect 'Leader' a'i drin fel eithriad i'r broses ar gyfer grantiau mwy;**
- **Nodi y byddai angen cynnwys £64k ychwanegol o fewn cyllideb yr Ymddiriedolaeth Elusennol am gyfnod o 3 blynedd.**

## 7 GRANT CARU AMLWCH

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Trysorydd fod y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2017 wedi penderfynu dyrannu grant o £4,200 i Grŵp Cymunedol Amlwch i ddatblygu llecyn o dir i'w ddefnyddio fel rhandir.  Roedd y dyfarniad grant yn amodol ar dderbyn amcangyfrifon a phrawf perchenogaeth neu brydles ar gyfer y tir.  Cyfeiriodd at Adran 2.1, paragraff (c) o'r meini prawf ar gyfer dyrannu grantiau gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn sy'n dweud "Pan fo'n angenrheidiol, bod yr ymgeiswyr (y gymdeithas / corff) â thystiolaeth o ddeiliadaeth ar y tir neu'r adeilad y gofynnir am grant iddo a'r ddeiliadaeth honno, fel arfer, am gyfnod sydd o leiaf 21 mlynedd. Yng nghyswllt adeiladau symudol, bydd deiliadaeth o saith mlynedd yn cael ei hystyried yn ddigonol. Yn achos caeau chwaraeon, bydd tystiolaeth o ddefnydd sefydlog dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy yn dderbyniol yn hytrach na thystiolaeth o ddeiliadaeth"

'Roedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi cynnig rhywfaint o dir i Grŵp Cymunedol Amlwch, ond ar ôl gwneud ymchwiliadau pellach, mae'r Cyngor Tref yn credu y gall bod y tir wedi ei lygru ac yn anaddas i'w ddefnyddio fel rhandir, o gofio y byddai'n cael ei ddefnyddio i dyfu ffrwythau a llysiau.  Yn dilyn hynny, mae'r Grŵp wedi darganfod llecyn o dir preifat y mae'r perchennog yn fodlon ei gynnig ar brydles i'r Grŵp ond nid yw'r tirfeddiannwr ond yn fodlon cynnig prydles gychwynnol o 5 mlynedd ar y tir, er y gellid ymestyn y cyfnod hwn wedyn.  Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddi'r Rhaglen ar gyfer y cyfarfod hwn, daeth yn amlwg nad yw'r tir preifat dan sylw yn addas ac mae'r tirfeddiannwr wedi tynnu'r cynnig yn ôl.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd fod Grŵp Cymunedol Amlwch bellach yn gofyn am estyniad chwe mis gan yr Ymddiriedolaeth lawn i allu chwilio am dir arall y gellid, o bosib, ei ddefnyddio fel rhandir.

Gadawodd yr Is-Gadeirydd, Mr R O Jones a Mr. Richard Griffiths y cyfarfod gan bod y ddau ohonynt wedi datgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â'r eitem hon ac ni chymerodd yr un o'r ddau unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y mater.

Rhoddodd aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol sylw i'r cais a chodwyd y canlynol: -

- Codwyd pryderon na ddylai'r meini prawf ar gyfer dyrannu grantiau gael eu rhoi heibio oherwydd dylid sicrhau bod deiliadaeth 21 mlynedd ar dir y gofynnir am grant ar ei gyfer. Roedd rhai Aelodau o'r Ymddiriedolaeth o'r farn y dylid cael trafodaeth bellach ar y meini prawf ar gyfer prydlesu yng nghyfarfod nesaf yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn;
- 'Roedd Aelodau o'r farn fod Grŵp Cymunedol Amlwch - Caru Amlwch wedi cael grant o £4,200 ar 12 Gorffennaf 2017 yn amodol ar dderbyn prawf o berchnogaeth neu brydles ar y tir a bod ganddynt 4 blynedd felly i wireddu'r prosiect.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD: -**

- **Hysbysu Grŵp Cymunedol Amlwch - Caru Amlwch bod ganddynt 4 blynedd i ddarganfod darn o dir yn unol â'r meini prawf cyllido ond mae'n rhaid iddynt sicrhau prydles 21 mlynedd ar y tir dan sylw.**
- **Bod trafodaeth yn digwydd yng nghyfarfod nesaf yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn ar y meini prawf ar gyfer dyrannu grantiau mewn perthynas â deiliadaeth tir.**

**8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**9 GRANT MAWR - RHEILFFORDD GANOLOG MÔN CYF**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â chais gan Rheilffordd Ganolog Môn Cyf i ddiwygio amodau'r grant a chaniatáu rhyddhau'r grant i ariannu costau parhaus.

**PENDERFYNWYD rhyddhau grant o £ 25k i Reilffordd Ganolog Môn i gwrdd â chostau perthnasol ac offer ychwanegol i hyrwyddo gweithrediadau presennol ar y coridor rheilffyrdd.**

**10 CAU ALLAN Y WASG a'r Cyhoedd**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**11 NEWID PROSIECT - CYMUNEDAU YN GYNTAF MÔN**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â newid lleoliad yr Hyb Cyflogaeth a Hyfforddiant yng Nghaergybi a chostau prosiect gan Cymunedau yn Gyntaf Môn.

**PENDERFYNWYD parhau i gefnogi'r prosiect yn y lleoliad newydd.**

**EITEM YCHWANEGOL A YSTYRIWYD GYDA CHANIATÂD CADEIRYDD YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

**GEMAU'R YNYSOEDD**

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod cais wedi ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth Elusennol am gymorth i ddenu Gemau'r Ynysoedd i Ynys Môn. Nododd, yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd, y penderfynwyd bod angen mwy o wybodaeth a chefndir mewn perthynas â'r cais i'r Ymddiriedolaeth Elusennol ac i bwyso a mesur a fyddai cais o'r fath yn cydymffurfio â meini prawf yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cyllido ceisiadau.

**CYTUNWYD i ofyn i'r Ysgrifennydd geisio rhagor o wybodaeth ynghylch y cais a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth Elusennol am gymorth ariannol i ddenu Gemau'r Ynysoedd i Ynys Môn ac iddo adrodd yn ôl i'r Ymddiriedolaeth lawn gyda hyn.**

**Mr Trevor Lloyd Hughes MBE**
**Cadeirydd**

1

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 16 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank